**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc**
**Siambr y Cyngor Neuadd y Sir, The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA**
**Dydd Iau, 22ain Mehefin, 2017 at 10.00 am**

**PRESENT:** Y Cynghorydd Sir M.Groucutt (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Sir: L. Brown, D. Jones, L. Jones, M. Lane, M. Powell, T. Thomas, J. Watkins,

Y Cynghorydd Sir V. Smith, P. Clarke,

Dr. A. Daly (Church in Wales)
M Fowler (Parent Governor Representative)
K Plow (Association of School Governors)

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Claire Marchant | Chief Officer Social Care, Health & Housing |
| Will Mclean | Chief Officer for Children and Young People |
| Paul Keeble | Traffic and Network Manager |
| Nikki Wellington | Finance Manager |
| Tyrone Stokes | Accountant |
| Hazel Ilett | Scrutiny Manager |
| Richard Williams | Democratic Services Officer |

**YMDDIHEURIADAU:**

Y Cynghorydd Sir S. Woodhouse

1. **Nodi penodiad Cadeirydd y Pwyllgor Dethol.**

Nodwyd penodi'r Cynghorydd Sir Groucutt fel Cadeirydd.

2. **Ethol Is-gadeirydd.**

Penodwyd Y Cynghorydd Sir L. Jones fel Is-gadeirydd.

3. **Datganiadau o Fuddiant**

Datganodd Y Cynghorydd Sir L. Jones fuddiant personol, nad yw'n rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau gan mai'i Mam yw'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Amddiffyn ac Iechyd ac roedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Datganodd Y Cynghorydd Sir mwn perthynas ag unrhyw gyfeiriadau M. Powell fuddiant personol, nad yw'n rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau mewn perthynas ag unrhyw gyfeiriadau wnaed at ysgolion uwchradd o fewn Sir Fynwy, gan ei bod yn llywodraethwr Ysgol Gyfun Harri'r VIII.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc**
**Siambr y Cyngor Neuadd y Sir, The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA**
**Dydd Iau, 22ain Mehefin, 2017 at 10.00 am**

**4. Fforwm Agored i'r Cyhoedd.**

Nid oedd aelodau o’r cyhoedd yn bresennol.

**5. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc dyddiedig 16eg Chwefror 2017 ac fe’u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**6. Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol 2017.**

### Cyd-destun:

Derbyn adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol 2017 – Gwella Canlyniadau Gwella Bywydau.

### Materion Allweddol:

- Mae’r adroddiad ar hyn o bryd mewn fformat drafft.
- Tynnu sylw at y materion yn nhermau Plant a Phobl Ifanc a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant.
- Mae fformat yr adroddiad nawr wedi’i ragnodi’n genedlaethol ac mae’n alinio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yng Nghymru.
- Amserlennir yr adroddiad i’w gyflwyno i’r Cyngor Llawn cyn diwedd Gorffennaf 2017 a chaiff ei gyflwyno i’r Cabinet yn ei gyfarfod yng Ngorffennaf 2017.

### Craffu Aelodau:

- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd ynghylch monitro Amddiffyn Plant, nodwyd mai rheoli risg yw busnes gwasanaethau cymdeithasol. Derbynnir atgyfeiriadau ac asesir y risg ar y pwynt hwnnw. Ar gyfer plant lle mae angen ymchwilio pellach, rheolir y risg mewn amrywiol ffyrdd. Mae’r Cyfarwyddwr naill ai’n gosod cynllun gofal a chymorth yn ei le neu caiff y risg ei reoli drwy benderfyniad amlasiantaethol ac ar y gofrestr Amddiffyn Plant.
- Mae mwy o blant yn cael eu rheoli drwy gynllun Amddiffyn Plant.
- Un o flaenoriaethau’r Gyfarwyddiaeth ar gyfer y flwyddyn hon yw canolbwyntio’i wasanaethau cymorth teulu mewn dau le. Mae un o’r rhain ar ffiniau gofal, yn darparu opsiynau cymorth teulu dwys cyn i blant ddod i mewn i’r system derbyn gofal. Yr agwedd arall yw canolbwyntio adnoddau o gwmpas cymorth teulu, sydd cyn y gofrestr amddiffyn plant.

- Felly, mae'n well ymgysylltu gyda theuluoedd yn gynt i reoli risg cyn cofrestru amddiffyn plant.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol ynghylch y diffyg data mewn rhai adrannau o'r adroddiad, hysbysodd y Prif Swyddog y Pwyllgor fod yr adroddiad yn dal mewn fformat drafft a diben dwyn yr adroddiad i'r Pwyllgor Dethol yn y cyfnod hwn yw ymgorffori unrhyw sylwadau a allai fod gan y Pwyllgor Dethol fel bod y fersiwn derfynol yn adlewyrchu'r sylwadau hynny a wnaed.

- Nodwyd bod adroddiad blynyddol yn ogystal ynghylch cwynion yn y Gwasanaethau a ddaw o flaen y Pwyllgor Dethol.

- Parthed fformat yr adroddiad, mae'r Ddeddf rydym yn glynu ati yng Nghymru, a ddaeth i fod o Ebrill 2017, yn cyfeirio at bobl yn hytrach nag oedolion neu blant. Mae'r adroddiad, felly, yn canoli ar bobl, yn hytrach nag ar blant neu bobl ifanc yn unig.

- Parthed cwynion ynghylch materion Amddiffyn Plant, mae'r Gyfarwyddiaeth yn dysgu fel gwasanaeth ac yn gweithio gyda staff i'w cefnogi i ddatrys mwy o faterion yng Nghyfnod 1 o'r weithdrefn gwyno a chwtogi nifer y cwynion sy'n mynd ymlaen i gyfnod 2. Fodd bynnag, os gwneir cyhuddiad sydd angen ymchwiliad, cyflawnir hyn mewn ffordd amlasiantaethol gyda Heddlu Gwent. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn effeithiol mewn datrys a chau lawr y math hwn o ymchwiliad yn gyflym. Lle bu llai o gefnogaeth i deuluoedd yw pan fydd y Gyfarwyddiaeth wedi mynd drwy broses o Amddiffyn Plant a'r plant heb fod bellach yn byw gyda'u teuluoedd, mae proses sylweddol o alaru y mae'n rhaid i'r teulu hwnnw fynd drwyddi a phrin iawn yw'r gwasanaethau a ddarperir yn y cyfnod hwn, Felly, gall hyn arwain at gwynion yn cael eu gwneud yn erbyn y Gyfarwyddiaeth o gwmpas y broses yr ymgymerwyd â hi. Mae angen gwneud mwy i helpu'r teuluoedd sy'n mynd drwy'r amser poenus hwn,

- Blaenoriaeth allweddol ar gyfer gwelliant i'r Gyfarwyddiaeth yw recriwtio mwy o rieni maeth o fewn y Sir. Buddsoddwyd yn y gwasanaeth gofalwyr maeth yn fewnol er mwyn ceisio gwella'r ffigurau recriwtio ar gyfer rhieni maeth yn fewnol. Fodd bynnag, hyd yn hyn, nid yw hyn wedi gweithio. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn gweithio'n glos gydag isadran farchnata'r Awdurdod ac mae ymgyrchoedd cychwynnol ar y gweill i recriwtio. Mae nifer o rieni maeth posib wedi dangos diddordeb. Un o nodweddion Sir Fynwy yw bod gennym rieni maeth ond mae nifer yn dewis maethu ar gyfer yr asiantaethau yn hytrach na'r Awdurdod. Mae angen gwybod paham mae hyn yn digwydd, ac mae ymgais i ymchwilio.

- Mae Gofalwyr Teulu a Ffrindiau Sir Fynwy yn golygu, pan osodir plentyn, er enghraifft gyda pherthynas neu ffrind y rhieni, cyfeirir yn aml at hyn fel gofalwr sy'n berthynas.

- Nid yw Cyngor Sir Fynwy'n gweithredu unrhyw gyfleusterau gofal preswyl. Mae gan yr Awdurdod un sefydliad gofal preswyl addysgol, sef Mounton House. Caiff y gwasanaeth hwn ei reoleiddio a'i archwilio gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

- Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu darn arwyddocaol o waith, y mae'r Awdurdod yn rhan ohono, sy'n edrych ar y canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a ddaeth i mewn i'r system yn 2013/14.

- Mae canlyniadau yng Nghyfnod Allweddol 4 i blant sy'n derbyn gofal yn flaenoriaeth ar gyfer yr awdurdod. Mae'n gohort gweddol fychan ond mae'n bwysig bod y plant hyn yn wybyddus ac yn cael eu hadnabod yn gynnar. Mae gwaith da rhwng yr ysgol a phwy bynnag sy'n darparu'r gofal i sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth y tu allan i'r ysgol ynghyd ag yn yr ysgol. Gobeithir y bydd y bylchau y mae'r plant wedi'u profi yn dechrau cael eu llanw mae gwaith yn cael ei wneud yn barhaus i sicrhau bod darpariaeth ar gyfer y plant hynny yn briodol a bod y cyrsiau cywir ar gael iddynt. Bydd Swyddogion yn siarad gydag Estyn yr wythnos nesaf ynghylch cefnogi grwpiau sy'n agored i niwed.

- Dan y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol newydd, mae angen ymgymryd ag arolygon bob blwyddyn o oedolion gydag anghenion gofal a chefnogaeth gofalwyr ac o blant a phobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â'r Awdurdod. Mae geiriad y cwestiynau wedi'i ragnodi'n genedlaethol felly nid yw'r cwestiynau bob amser yn llifo'r ffordd y byddai'r Gyfarwyddiaeth yn hoffi gofyn cwestiynau yn nhermau profiadau pobl o'r Gyfarwyddiaeth.

- Mae angen i'r Gyfarwyddiaeth edrych yn fanylach ar y gwahaniaeth rhwng gofalwyr a'r rheiny ag anghenion gofal a chefnogaeth ac fel y gall y Gyfarwyddiaeth ddal i gefnogi gofalwyr.

- Mae gan yr Awdurdod wasanaeth o'r enw Cwnsela Wyneb yn Wyneb gaiff ei redeg gan y Gwasanaeth Ieuenctid ac mae'n darparu cefnogaeth i blant a phobl ifanc ar draws yr holl ysgolion yn Sir Fynwy yn y sectorau cynradd ac uwchradd. Cefnogir y gwaith hwn gan gymhorthdal gan Lywodraeth Cymru a chyllid craidd gan yr Awdurdod. Mae gan yr Awdurdod gwnselwyr sy'n mynd i mewn i ysgolion ac mae pobl sy'n gweithio gyda'r plant yn yr ysgol. Ymchwilir llwybrau eraill i hwyluso'r mater hwn, megis model a gaiff ei weithredu cyn bo hir lle bydd yr Awdurdod yn gweithio gydag Iechyd Meddwl Sylfaenol a fydd yn darparu proses atgyfeirio gyflymach.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol ynghylch ffyrdd i gynyddu darpariaeth faeth yn fewnol drwy ddarparu esemptiadau'r dreth gyngor i rieni maeth, fel y gwneir mewn rhai awdurdodau lleol yn Lloegr, nodwyd nad oedd esemptiad y dreth gyngor wedi'i ystyried gan yr Awdurdod ond byddai'r Gyfarwyddiaeth yn fodlon edrych ar unrhyw arfer o unrhyw awdurdod ar draws y Deyrnas Unedig lle maent wedi llwyddo i gynyddu gofal maeth yn fewnol.

Nodwyd bod angen ymyrryd yn gynt lle mae a wnelo pobl ifanc sy'n agored i niwed gan sefydlu agweddau ataliol gan alluogi i fwy o blant aros gyda'u teuluoedd. Mae ystod o wasanaethau ar gael ar hyn o bryd e.e. Teuluoedd yn Gyntaf, Canolfan y Fesen, Dechrau'n Deg ac ymwelwyr iechyd. Ar lefel strategol drwy gyfrwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â'r 1000 o ddiwrnodau cyntaf o blant gyda'r bwriad o edrych ar yr ymyriadau sy'n ofynnol o gyfnod cyn genedigaeth i gyfnod cyn-ysgol. Mae hyn yn hynod o bwysig ac angenrheidiol i ail-ganolbwyntio adnoddau ar hyd y llinellau hyn.

- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd ynghylch canran y staff asiantaeth a ddefnyddir, bydd y Prif Swyddog yn derbyn ac yn darparu ffigur i'r Aelod.

- Ar ddechrau 2016/17 roedd 17 o weithwyr asiantaeth ar draws Gwasanaethau Plant. Mae'r nifer hon wedi bod yn gostwng yn gyson drwy gydol y flwyddyn. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 8 gweithiwr asiantaeth o fewn y gwasanaeth sy'n ostyngiad o 50% mewn blwyddyn.

- Mewn swyddi Rheoli, o'r rheolwr tîm i fyny, nid oes gan y Gyfarwyddiaeth bellach unrhyw weithwyr asiantaeth.

- Dros y 18 mis blaenorol, mae enw da Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Fynwy wedi gwella'n sylweddol ac mae recriwtment dros y cyfnod hwn wedi bod yn gadarnhaol.

- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd ynghylch y broses Amddiffyn Plant, nodwyd bod y Gyfarwyddiaeth, yn y chwe mis diwethaf, wedi symud y Tîm o Gwmpas y Teulu o Bartneriaethau i mewn i Wasanaethau Plant ac mae'r Gyfarwyddiaeth yn adolygu ac yn ailfodelu'r agwedd hon.

- Mae adolygiad o gefnogaeth i'r teulu hefyd yn cael ei weithredu a'r cyfnod cyntaf yw alinio gwasanaethau i mewn i garfan fwy ystyrlon o wasanaethau.

- Y flwyddyn ddiwethaf roedd y dangosydd perfformiad ar gyfer cwblhau asesiadau plant yn 75% ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae Rheolwr Tîm parhaol yn yr adran bellach ac mae'n monitro hyn yn gyson. Mae'r dangosydd perfformiad nawr yn fwy na 90%.

**Casgliad y Pwyllgor**

- Diolchodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor am ofyn rhai cwestiynau dyrys ac ymhen amser, bydd y Pwyllgor Dethol yn edrych ar fonitro materion a godwyd gennym sydd angen eu gwella.

- Ar ran y Pwyllgor Dethol, diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog am ddarparu'r adroddiad a darparu atebion cryno i gwestiynau a godwyd

a gofynnodd i'r Prif Swyddog drosglwyddo'r diolch i'w staff am y gwaith maent yn ei wneud.

7. **Polisi Diogelu Corfforaethol.**

**Cyd-destun:**

Hysbysu'r Pwyllgor Dethol ynghylch cyflwyno'r Polisi Amddiffyn Corfforaethol newydd.
**Materion Allweddol:**

- Mae amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl yn flaenoriaeth o'r radd uchaf gan y Cyngor.

- Cydnabyddir Amddiffyn, dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, fel cyfrifoldeb pawb a gwnaed cynnydd sylweddol dros y pum mlynedd ddiwethaf i wneud diwylliant, gwybodaeth ac arfer amddiffyn yn rhan systematig o'n gwead.

- Mae'r holl staff, sy'n cael eu talu neu heb gael eu talu, a Chynghorwyr yn rhannu cyfrifoldeb yn gorfforaethol ac yn unigol i sicrhau y caiff plant ac oedolion sydd mewn perygl eu trin â pharch a'u hamddiffyn rhag niwed.

- Tra mae polisi amddiffyn yn ei le gan y Cyngor mae e'n canolbwyntio'n sylweddol ar leoliadau addysg a gwasanaethau plant a theuluoedd eraill. Mae amddiffyn, felly, wedi'i wreiddio'n gadarn mewn rhai Cyfarwyddiaethau a meysydd gwasanaeth. Fodd bynnag, mae amrywiol lefelau o ddealltwriaeth parthed disgwyliadau mewn rhannau eraill o'r sefydliad.

- Bydd y polisi hwn yn fecanwaith i werthuso dealltwriaeth, systemau a hyfforddiant drwy'r Cyngor cyfan a sicrhau bod amddiffyn â throedle cadarn ac yn greiddiol i waith y Cyngor.

**Craffu Aelodau:**

- Nodwyd y dylai'r holl Aelodau gael eu hyfforddi i o leiaf Lefel 1 mewn amddiffyn.

- Bydd y mecanweithiau ynghlwm wrth y polisi yn helpu'r awdurdod i lynu at y Polisi Amddiffyn Corfforaethol. Mae'r Polisi'n cyfeirio at y broses hunanwerthusiad y bydd yn ofynnol i bob maes ei chyflawni.

- Wrth ymgymryd â'r hunan-arfarniadau, mae'n galluogi meysydd gwasanaeth unigol a'u timoedd rheoli adrannol i werthuso lle maent ac i osod cynlluniau

gweithredu yn eu lle i fynd i'r afael â'r meysydd lle mae angen gwelliant. Disgwylir i'r hunan-arfarniadau hyn gael eu cwblhau 31ain Gorffennaf 2017.

- Parthed hyfforddiant ar gyfer Aelodau, cynhelir sesiwn yng Ngorffennaf 2017. Cedwir cofrestr o'r Aelodau nad ydynt yn gallu mynychu'r sesiwn gyda'r bwriad o gynnal sesiwn arall er mwyn sicrhau bod yr holl Aelodau'n derbyn hyfforddiant.

- Sefydlir cynllun hyfforddiant i sicrhau y gallai staff dderbyn hyfforddiant priodol, y mwyafrif ohonynt yn cael eu cynnal yn eu lleoliadau gwaith.
- Mae'n ofynnol i holl lywodraethwyr Sir Fynwy ymgymryd â'r hyfforddiant gaiff ei fonitro drwy gyfrwng proses hunanwerthuso ysgolion unigol.

- Darperir hyfforddiant gan y Byrddau Amddiffyn rhanbarthol.

- Mynegwyd pryder nad oedd ysgolion yn cael eu darparu â'r wybodaeth gyflawn mewn perthynas â'r Strategaeth Ataliol ac felly heb gael eu gwneud yn ymwybodol o'i phwysigrwydd. Nodwyd bod ysgolion wedi bod drwy'r hyfforddiant ac y dylent, felly, fod yn ymwybodol o'r strategaeth hon.

**Casgliad y Pwyllgor**

- Dyma faes lle mae'r Cyngor wedi gweithredu'n briodol wedi i wendidau gael eu dynodi mewn perfformiad yn flaenorol.

- Ar ran y Pwyllgor Dethol, diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion baratoi a chyflwyno'r adroddiad.

- Ystyriwyd y gallai'r Awdurdod edrych gyda mwy o hyder ac arfer diogel ar hyd a lled y Sir a bydd yn helpu i warantu lefel uwch o amddiffyn ar draws y Sir gyfan a'i gwasanaethau.

**8. Diweddariad ar drefniadau Diogelu - Cynllun Kerbcraft.**

**Cyd-destun:**

Cyn ei gyflwyno i'r Cabinet ar 5ed Gorffennaf 2017, darparu Aelodau'r Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc â diweddariad ar y cynllun gweithredu a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 20fed Mawrth 2017 (atodiad 2 o'r adroddiad yn dwyn y teitl 'Adroddiad Swyddfa Archwiliad Cymru ar amddiffyn o fewn cynllun kerbcraft yng Nghyngor Sir Fynwy').

**Materion Allweddol:**

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc**
**Siambr y Cyngor Neuadd y Sir, The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk, NP15 1GA**
**Dydd Iau, 22ain Mehefin, 2017 at 10.00 am**

- Yn dilyn adolygiad gan Swyddfa Archwiliad Cymru (SAC) o ddarpariaeth hyfforddiant kerbcraft gan staff Cyngor Sir Fynwy ar ran Llywodraeth Cymru, hysbyswyd y Cyngor o'r cynllun gweithredu ar 20$^{fed}$ Mawrth 2017.

- Mae Atodiad 1 o'r adroddiad yn atgynhyrchu'r cynllun gweithredu ond mewn llythrennau italaidd dan benawdau perthnasol darperir diweddariad.

- Mae un o'r camau gweithredu'n gofyn am baratoi a gweithredu gweithdrefnau newydd ar gyfer darparu hyfforddiant kerbcraft ac y dylid hysbysu'r Cabinet o'r model gweithredu yn y dyfodol, Mae cyfle gan y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc adolygu'r adroddiad cyn ei fod yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet.

- Yn ystod Mawrth ac Ebrill 2017, adolygodd Swyddogion y trefniadau gwaith blaenorol a chyfredol a datblygodd weithdrefn newydd ar gyfer darparu hyfforddiant kerbcraft.

- Darperir y gweithdrefnau newydd polisi a gwaith yn atodiadau 2, 3 a 4 o'r adroddiad.

- Gwendid mawr y tynnwyd sylw ato gan SAC oedd rheoli a recordio gwirfoddolwyr a gefnogodd Gyngor Sir Fynwy wrth hyfforddi plant ymhob ysgol,

- Ers i'r SAC fynegi pryder dros reoli gwirfoddolwyr yn Awst 2016, ni ddefnyddiwyd un gwirfoddolwr a darparwyd pob hyfforddiant kerbcraft gan hyfforddwyr kerbcraft yng Nghyngor Sir Fynwy, yn achlysurol gyda chymorth gan staff cymorth ysgol.

- Mae'r weithdrefn newydd yn cyfyngu ar y defnydd o wirfoddolwyr i chwech ar unrhyw un adeg felly fe ddaw gwirio a chofnodi gwybodaeth amddiffyn mewn perthynas â gwirfoddolwyr yn llawer mwy syml (cyn hynny roedd angen cofnodion hyd at 80 o wirfoddolwyr).

- Mae'r newid hwn mewn gweithdrefn, ynghyd â chyfarwyddiadau clir ar y modd mae'r cynllun yn mynd i gael ei gyflenwi, yn cynnig mwy o hyder bod amddiffyn yn cael ei reoli yn y ddarpariaeth hon o wasanaeth .

**Craffu Aelodau:**

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol, nodwyd ar y foment, y gallai'r Awdurdod straffaglu os caiff y model newydd ei dderbyn. Fodd bynnag, byddai'r Awdurdod yn gallu defnyddio'r chwe gwirfoddolwr ar draws yr ardal ond gyda mwy o adnoddau o ffynonellau mewnol; dylai hyn fod yn gyraeddadwy. Gobeithir y gallai'r gwirfoddolwyr craidd ddarparu'u gwasanaethau ar fwy o achlysuron, h.y. llai o wirfoddolwyr ond yn gallu darparu mwy o'u hamser yn hwy.

- Arbedir amser sylweddol wrth gwtogi'r rhaglen o 12 i 9 wythnos. Mae Swyddogion wedi hysbysebu drwy'r rhwydwaith wirfoddoli ac mae nifer o bobl wedi mynegi diddordeb i ddod yn un o'r chwe gwirfoddolwr craidd.

- Bydd monitro'r Cynllun Kerbcraft yn dangos pa fath o gynnydd a fu. Mae'r wybodaeth a adroddir yn ôl ar hyn o bryd i Lywodraeth Cymru yn gyfyngedig. Fodd bynnag, gobeithir drwy estyn y broses fonitro i gael gwybodaeth bellach ac adborth oddi wrth y plant eu hunain a'r ysgolion, y bydd hyn yn darparu mwy o wybodaeth ystyrlon i'w fwydo nôl i Lywodraeth Cymru.

- Mae Llywodraeth Cymru'n diweddaru'i gweithdrefnau gyda'r bwriad o wneud y cynllun yn fwy ystyrlon.

**Casgliad y Pwyllgor**

- Ar ran y Pwyllgor Dethol, diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Traffig a Rhwydwaith am gyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor.

- Mae'r Cynllun yn ceisio mynd i'r afael â'r materion a godwyd gyda'r Awdurdod gyda Swyddfa Archwilio Cymru (SAC).

- Bydd y Pwyllgor Dethol yn derbyn adroddiad diweddaru maes o law.

**9. <u>Datganiad All-dro 2016/17 Monitro Refeniw a Chyfalaf.</u>**

**Cyd-destun:**

Derbyn gwybodaeth ar sefyllfa refeniw alldro'r Awdurdod ar ddiwedd cyfnod 4 sy'n cynrychioli'r sefyllfa ariannol alldro ar gyfer blwyddyn 2016/17.

**Argymhellion a gynigir i'r Cabinet:**

- Bod Aelodau'n ystyried tanwariant refeniw net alldro o £884,000, gwelliant o £805,000 ar ragfynegiadau alldro chwarter 3.

- Bod Aelodau'n ystyried gwariant cyfalaf alldro o £40.03 miliwn yn erbyn cyllideb ddiwygiedig o 40.98 miliwn, wedi llithriad arfaethedig o £17.5 miliwn, gan arwain at danwariant net o £951,000.

- Ystyried a chymeradwyo llithriad cyfalaf a argymhellwyd o £17.5 miliwn, gan dalu sylw i'r cynlluniau hynny a ddisgrifir ym mharagraff 3.3.6 o'r adroddiad lle gwnaed cais am lithriad gan y rheolwr gwasanaeth ond nad yw'n cael ei argymell i lithro (£198,000).

- Ystyried y defnydd o gronfeydd wrth gefn a gynigir ym mharagraff 3.4.1 o'r adroddiad.

- Cefnogi rhannu'r tanwariant cyffredinol i ategu lefelau'r cronfeydd wrth gefn fel y disgrifir isod, h.y.:

| | |
|---|---|
| Cronfa Buddsoddi â Blaenoriaeth | £570,000 |
| Dileu swydd & Chronfa Bensiwn wrth Gefn | £114,000 |
| Cronfa wrth Gefn Trawsnewid TG | £100,000 |
| Cronfa Wrth Gefn Cynhyrchu Derbyniadau Cyfalaf | £100,000 |
| Cyfanswm | £884,000 |

- Mae Aelodau'n nodi y bydd y lefel isel o gronfeydd wrth gefn a glustnodir yn lleihau'n sylweddol yr hyblygrwydd sydd gan y Cyngor I gwrdd â heriau adnoddau prin yn y dyfodol.

- Mae Aelodau'n nodi'r gostyngiad arwyddocaol yng ngweddill cyffredinol cyllideb ysgolion ar ddiwedd 2016/17 ac yn cefnogi'r gwaith parhaus gydag ysgolion i sicrhau y cyfarfyddir â gofynion Cynllun Ariannu Tecach y Cyngor ac y bydd gweddill cyffredinol ysgolion yn dal yn gadarnhaol yn 2017/18.

**Craffu Aelodau:**

- Mae Ysgol Gyfun Cas-gwent wedi gwneud gwelliannau sylweddol wrth gwtogi'i diffyg yn y gyllideb.

- Bu lleihad sylweddol yng nghronfeydd wrth gefn cyllideb ysgolion ar draws y Sir yn y flwyddyn ariannol hon.

- Nodwyd mai cyfrifoldeb llywodraethwyr ysgol oedd gosod cyllideb eu hysgolion. Cydnabuwyd bod costau sefydlog o fewn ysgolion. Fodd bynnag, lle mae meysydd lle gall ysgolion wneud arbedion, mae Swyddogion yn gweithio'n glos gydag ysgolion i sicrhau bod yr arbedion yn cael eu defnyddio.

- Mae nifer o brosiectau ar hyn o bryd o fewn ysgolion yn edrych ar ffyrdd lle gallai'r ysgolion fod yn gallu arbed arian.

- Mae Swyddogion yn gweithio'n glos gyda'r CLILC ac maent yn edrych ar fodel y Rheolwr Busnes gyda'r bwriad o dderbyn peth cyllid.

- Mynegwyd pryder bod rhai cyfrifoldebau ychwanegol yn mynd i mewn i ysgolion ond nid oedd y cyllid ar gyfer y cyfrifoldebau ychwanegol hyn yn cyrraedd. Dywedodd y Rheolwr Cyllid bod yn rhaid iddi edrych i mewn i'r mater hwn sy'n digwydd ar draws yr awdurdod ac nid dim ond yn y Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc.

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch Cyfnod 3 o Adolygiad Anghenion Dysgu Ychwanegol, mewn perthynas ag Ysgol Mounton House, nodwyd i gynllun adfer dair blynedd gael ei ganiatáu i'r ysgol. Parthed Ysgol Gynradd Deri View, mae

canolfan Adnoddau Anghenion Arbennig yn dal yno. Fodd bynnag, gwnaed yr arbedion oedd eu hangen drwy gwtogi nifer y staff o ganlyniad i'r cwymp mewn niferoedd disgyblion.

- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd parthed a allai ysgolion weithio mwy mewn clystyrau gyda'r bwriad o greu mwy o ddiwrnodau hyfforddiant mewn swydd er mwyn arbed arian a derbyn hyfforddiant ar y cwricwlwm newydd, dywedodd y Rheolwr Cyllid y byddai'n dwyn y mater hwn yn ôl at y Prif Swyddog ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.

- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd ynghylch cyllid y GCA yn cyfateb i £0, hysbysodd y Rheolwr Cyllid y Pwyllgor Dethol i'r cyllid grant fod ar gael yn 2016/17 ac nid oedd wedi'i ddyrannu ar y pryd hwnnw pan dderbyniodd yr Awdurdod y grantiau, roedd i'w ddefnyddio ar draws yr ysgolion. Er enghraifft, ar gyfer clwstwr Y Fenni, roedd yr Awdurdod wedi derbyn grant a oedd i'w rannu ymhlith yr ysgolion. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd yr arian wedi cael ei wario gan yr ysgolion.

**Casgliad y Pwyllgor**

Ar ran y Pwyllgor Dethol, diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion cyllid am gyflwyno'r adroddiad.

Penderfynasom dderbyn yr adroddiad a nodi'i gynnwys.

**10. Rhestr camau gweithredu yn deillio o gyfarfod blaenorol.**

Derbyniasom a nodwyd y rhestr o gamau gweithredu a oedd wedi'u cwblhau, yn codi o gyfarfod Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc ar 16eg Chwefror 2017. Wrth wneud hynny, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r Cadeirydd wedi cwrdd â'r Prif Swyddog ar gyfer Plant a Phobl Ifanc a gyda Phrif Swyddog Iechyd a Gofal Cymdeithasol i drafod materion i'w craffu yn y dyfodol.

- Bydd trafodaeth yn digwydd ar ddiwedd cyfarfod y Pwyllgor Dethol yng Ngorffennaf 2017 mewn perthynas â nodi blaenoriaethau'r Pwyllgor a llunio'r blaengynllun gwaith.

**11. Blaenraglen Waith Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc.**

Derbyniasom flaengynllun gwaith y Pwyllgor Dethol. Wrth wneud hynny, nodwyd y pwyntiau canlynol:

**Gorffennaf 2017 Cyfarfod y Pwyllgor Dethol**:

- Adroddiad gan y Rheolwr Craffu ynghylch dewisiadau cyfethol i'r Pwyllgor Dethol.

- Trafodaeth ar y Rhaglen Waith.

**Medi 2017 Cyfarfod y Pwyllgor Dethol**:

- Trafodaeth gydag Ymgysylltu i Newid (E2C – cyngor ieuenctid y Cyngor).

**12. Blaenraglen Gwaith y Cabinet a'r Cyngor.**

Derbyniasom Flaenraglen Waith y Cyngor a'r Cabinet gan nodi'i chynnwys.

Hysbysodd y Rheolwr Craffu'r pwyllgor Dethol mai cyfrifoldeb y Swyddogion yw awgrymu eitemau i'w gosod ymlaen i'r Cabinet ac yna cyfrifoldeb y Gwasanaethau Democrataidd yw poblogi'r dyddiadur digwyddiadau.

Rydym ar hyn o bryd ar ddechrau gweinyddiaeth newydd a thynnwyd sylw Swyddogion at yr angen i boblogi'r dyddiadur digwyddiadau yn y dyfodol.

**13. Trafodaeth ynglyn â'r amserau cyfarfodydd Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc yn y dyfodol.**

Penderfynasom barhau i gwrdd am 10.00am, fel yr amlinellir yn nyddiadur y Cyngor.

**The meeting ended at 11.35 am**